# ADRAN 14: CYNNWYS CREFYDDOL

14.1 Cyflwyniad
14.2 Egwyddorion
14.3 Canllawiau

## 14.1 CYFLWYNIAD

Mae'r hawl i arfer rhyddid barn, cydwybod a chrefydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys rhyddid i addoli, addysgu, ymarfer a chadw defodau.

Mae'r adran hon ond yn ymdrin â chynnwys crefyddol y BBC ar bob llwyfan. At ddibenion y canllawiau hyn, ac yn unol â Chod Darlledu Ofcom, mae hyn yn golygu rhaglenni sy'n delio'n gyfan gwbl neu'n bennaf â chrefydd, credoau crefyddol a safbwyntiau am grefydd a chredoau crefyddol. Mae'r Cytundeb a ddaw gyda Siarter Frenhinol y BBC yn nodi bod allbwn crefyddol y BBC yn cyfrannu at y modd y mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae'r cynnwys hwn yn cwmpasu rhaglenni ac allbwn arall – fel adroddiadau ar-lein – sy'n deillio o'r rhaglenni hynny neu sy'n gysylltiedig â nhw[1].

Mae credoau crefyddol yn ganolog i fywydau llawer o bobl ac mae'r adran hon yn sicrhau bod cynnwys rhaglenni crefyddol ac allbwn cysylltiedig yn cael ei wneud â chyfrifoldeb priodol.

Dylai gwneuthurwyr cynnwys mewn genres eraill sy'n cyfeirio at grefydd neu arweinwyr a chredoau crefyddol edrych ar y canllawiau ar Niwed a Thramgwydd a, lle bo angen, Cywirdeb a Didueddrwydd.

(Gweler Adran 5 Niwed a Thramgwydd: 5.4.66-5.4.68; Adran 3 Cywirdeb ac Adran 2 Didueddrwydd)

## 14.2 EGWYDDORION

14.2.1 Mae rhyddid golygyddol gan gynhyrchwyr rhaglenni crefyddol a chynnwys cysylltiedig i ganiatáu mynegi ffydd yn yr allbwn ac i ymchwilio i faterion ffydd. Rhaid i dimau cynhyrchu sicrhau na fydd cyfranwyr at gynnwys am safbwyntiau crefyddol a chredoau yn cael eu trin yn sarhaus.

[1] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 4: Crefydd

14.2.2 Lle mae crefydd neu enwad crefyddol yn destun rhaglen grefyddol neu gynnwys cysylltiedig, rhaid iddi fod yn glir i'r gynulleidfa beth yw'r grefydd honno.

14.2.3 Rhaid amddiffyn cynulleidfaoedd agored i niwed rhag camfanteisio, a rhaid i raglenni crefyddol beidio â cheisio hyrwyddo barn neu gredoau crefyddol yn llechwraidd.

## 14.3 CANLLAWIAU

14.3.1 Mae rhyddid golygyddol gan wneuthurwyr cynnwys i'r allbwn gynnwys mynegi ffydd ac i ymchwilio i faterion ffydd. Nid yw'r gofyniad i beidio â thrin barnau a chredoau crefyddol yn ddifrïol wedi'i fwriadu i atal trafodaeth neu her resymol. Er y gellir beirniadu crefydd a barnau crefyddol, dylid sicrhau bod cyd-destun priodol a bod barnau beirniadol yn agored i her.

14.3.2 Dylid arfer gwrthrychedd dyladwy wrth ymdrin ag unrhyw honiadau a wneir mewn allbwn crefyddol fod pwerau neu alluoedd arbennig gan berson byw neu grŵp. Ni ddylid gwneud honiadau o'r fath mewn cynnwys ar-lein sy'n debygol o gael ei weld gan blant, pan fydd disgwyl i nifer sylweddol o blant fod yn gwylio'r teledu neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando ar y radio.

14.3.3 Ni ddylai allbwn crefyddol gael ei ddefnyddio i recriwtio, er enghraifft drwy apelio'n uniongyrchol at gynulleidfaoedd i ymuno â chrefydd benodol. Bydd cyfeiriadau at yr effeithiau cadarnhaol o berthyn i grefydd benodol yn dderbyniol fel arfer.

14.3.4 Pan fydd cynnwys crefyddol yn cynnwys rhyngweithio â'r gynulleidfa, rhaid cael mesurau priodol ar waith i ganiatáu mynegi ffydd ac ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â ffydd, gan sicrhau nad yw barnau na chredoau crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol yn cael eu difrïo a bod cynulleidfaoedd agored i niwed hefyd yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.4.55-17.4.71)